Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
**Heol Gwyrosydd**
**Penlan**
**Swansea**
**SA5 7BU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/05/2013**

## Cyd-destun

Ysgol uwchradd dynodedig Gymraeg sydd yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 11-18 oed yw Ysgol Bryn Tawe. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yng ngogledd Abertawe ac mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Abertawe. Mae 19.6% o'r disgyblion yn byw yn ardaloedd 20% mwyaf difreintiedig Cymru.

Mae 746 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys 129 yn y chweched dosbarth. Mae gan tua 12% o'r disgyblion yr hawl i ginio ysgol di-dâl, sydd yn is na'r canran cenedlaethol, sef 17.4%. Mae 18% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol gyda 2% ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigyrau hyn yn is na'r ffigyrau cenedlaethol.

Daw 22% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad ar yr aelwyd ac mae 99% yn rhugl yn y Gymraeg. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth 'drochi' ar gyfer grŵp o ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 sydd wedi trosglwyddo o ysgolion cynradd Saesneg, i'w galluogi i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y prif ffrwd.

Ychydig iawn o'r disgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Nid oes unrhyw ddisgybl â'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Fe apwyntiwyd pennaeth newydd yn 2010 yn ogystal â dau bennaeth cynorthwyol newydd. Roedd gweddill yr uwch dîm arwain yn eu swyddi cyn hynny.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Bryn Tawe yn 2012-2013 yw £4,528. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Abertawe yw £15,254 a'r lleiafswm yw £3,939. Mae Ysgol Gyfun Bryn Tawe yn y chweched safle o'r 15 ysgol uwchradd yn Sir Abertawe o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae Ysgol Gyfun Bryn Tawe yn ysgol ragorol oherwydd:

- mae perfformiad yr ysgol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, dros dair blynedd, yn cymharu'n dda iawn gydag ysgolion tebyg;
- mae cyfleoedd ardderchog i'r disgyblion leisio eu barn am bob agwedd o ddatblygiad yr ysgol;
- mae ansawdd a chysondeb yr addysgu yn nodwedd ardderchog, gyda dros hanner yr addysgu yn rhagorol;
- mae trefniadau asesu cyson ac effeithiol ar draws yr adrannau sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at gynnydd disgyblion;
- ymddygiad da iawn y disgyblion o fewn a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth; ac
- mae strategaethau adferol yr ysgol yn hyrwyddo ymddygiad rhagorol gan y disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn rhagorol oherwydd:

- mae'r pennaeth yn cyfathrebu cenhadaeth yr ysgol yn gyson ac yn effeithiol iawn;
- mae'r uwch dîm rheoli yn rhannu gweledigaeth gytûn er mwyn gwireddu amcanion y cynllun datblygu;
- mae arweinwyr yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau yn glir er mwyn mynnu'r safonau uchaf o gyrhaeddiad a lles y disgyblion;
- mae cydweithio hynod effeithiol rhwng y staff, rheolwyr a llywodraethwyr;
- brwdfrydedd ac effeithiolrwydd arweinwyr i arbrofi, dysgu gan gydweithwyr, a myfyrio ar eu harferion eu hunain er mwyn cyfoethogi profiadau'r disgyblion;
- mae'r ysgol yn gweithio yn effeithiol iawn gydag ysgolion eraill er mwyn rhannu arferion gorau; a
- phartneriaethau aeddfed a llwyddiannus sy'n cefnogi anghenion disgyblion yn hynod effeithiol.

## Argymhellion

A1 Lleihau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched

A2 Cryfhau perfformiad yng nghyfnod allweddol 3

A3 Lledaenu'r arferion rhagorol o gynllunio ar gyfer gwella

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Mae canlyniadau perfformiad yr ysgol dros dair blynedd, ac yn enwedig yn 2012, wedi bod yn rhagorol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae disgyblion ar draws yr ysgol gallu yn gwneud cynnydd arbennig wrth ddatblygu eu medrau.

Yng nghyfnod allweddol 3, dros y pum mlynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn dangos cynnydd arwyddocaol ac mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd yn uwch na'r disgwyliad.

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn un o gryfderau'r ysgol. Ers 2009, mae canlyniadau'r trothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu ac eithrio 2011, ac yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Yn ystod yr un cyfnod, mae canlyniadau'r trothwy lefel 2 wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu ag, heblaw am 2011, yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Ers 2009, mae canlyniadau'r dangosydd pynciau craidd wedi bod yn y 25% uchaf, ond bu gostyngiad i'r 50% uchaf yn 2011.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae pob un disgyblion wedi cyrraedd y trothwy lefel 1. Mae hyn yn nodwedd gref.

Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, nid oes un disgybl wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster. Yn 2012, roedd nifer yr ymadawyr nad ydynt mewn cyflogaeth neu'n ymgymryd ag addysg a hyfforddiant yn llawer is na chyfartaledd yr awdurdod lleol a chyfartaledd Cymru.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3, dros gyfnod o dair blynedd, wedi bod yn agos iawn at gyfartaledd Cymru ac, yn 2012, roedd y ganran yn uwch na chyfartaledd y sir a Chymru.

Yn gyffredinol, mae cynnydd y disgyblion yn rhagorol. Fodd bynnag, mae mwy o ferched na bechgyn yn cyrraedd y lefelau uwch yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 3.

Yng nghyfnod allweddol 4, yn y dangosydd sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, mae'r merched yn cyflawni'n well na'r bechgyn.

Yn gyffredinol, mae cyflawniadau disgyblion â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol i wella medrau darllen a rhifedd yn gwneud cynnydd da iawn. Mae disgyblion mwy abl a thalentog yn cyrraedd eu llawn botensial ac mae'r ganran sy'n cyrraedd gradd A neu A* yn dda iawn.

Mewn mwyafrif o’r gwersi, mae’r disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol. Maent yn adeiladu ar eu gwybodaeth, eu medrau, a’u dealltwriaeth yn dda iawn. Mae medrau siarad y disgyblion yn datblygu’n effeithiol yn y Gymraeg a Saesneg, gyda disgyblion yn cynnig ymatebion yn hyderus ar lafar i gwestiynau’r athrawon, gan ddangos gafael gynyddol ar dermau pynciol.

Mae llawer o’r disgyblion yn gallu cynnig barn estynedig yn eu gwersi, ar draws y cwricwlwm. Yn ogystal, maent yn trafod eu syniadau a’u casgliadau am effeithiolrwydd arddull cyn-destunau’n effeithiol. Mae disgyblion yn datblygu amrediad o fedrau meddwl sydd yn cyfrannu’n effeithiol iawn tuag at eu medrau dysgu annibynnol. Mae disgyblion yn datblygu, yn ymestyn ac yn ymarfer eu medrau rhif yn effeithiol mewn amryw o bynciau. Yn y gwersi, mae bron pob disgybl yn gweithio’n effeithiol yn unigol, ac mewn grwpiau bach maent yn gweithio’n fwriadus a gyda brwdfrydedd amlwg.

Mae cynnydd arwyddocaol yn nifer y disgyblion sydd yn hyderus yn y Gymraeg ac yn datblygu’r medrau ysgrifennu a darllen perthnasol. Mae bron pob disgybl sydd ag oed darllen yn is na’i oed cronolegol ar ddechrau Blwyddyn 7 yn gwneud cynnydd cadarn iawn mewn darllen yn ystod cyfnod allweddol 3. Mae llawer yn ddarllenwyr rhugl, ac mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn gwneud defnydd priodol o’u medrau darllen ar draws y pynciau. Mae rhan fwyaf hefyd yn defnyddio’r iaith raenus yn hyderus mewn gwersi ar draws y cwricwlwm.

Yn y rhan fwyaf o’r pynciau, mae bron pob disgybl yn gwneud defnydd rhagorol o’u medrau ysgrifennu. Mae llawer o’r disgyblion yn gallu ysgrifennu yn estynedig mewn ystod o ffurfiau o fewn gwersi Cymraeg a Saesneg a hefyd mewn llawer o bynciau eraill. Yn gyffredinol, mae pob disgybl yn gwneud cynnydd priodol o ran cywirdeb mynegiant ysgrifenedig, ac mae llawer o lyfrau disgyblion yn dangos bod eu medrau sillafu, atalnodi, a’r defnydd o eirfa berthnasol yn gywir. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ailddrafftio gwaith ysgrifenedig mewn llawer o bynciau. Yn eu gwersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dealltwriaeth o gonfensiynau gramadeg a chywirdeb iaith. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn gwrando’n astud ac yn cyflwyno’u gwaith yn drefnus iawn.

**Lles: Rhagorol**

Mae’r disgyblion, trwy’r cynghorau blwyddyn a’r cyngor ysgol, yn chwarae rôl flaenllaw ym mywyd yr ysgol. Maent yn dylanwadu’n effeithiol iawn ar ansawdd y dysgu ac addysgu. Mae’r arweinwyr digidol yn cynnig hyfforddiant i staff ar sut i wneud defnydd creadigol a dychmygus o dechnoleg gwybodaeth mewn gwersi. Caiff disgyblion lawer iawn o gyfleoedd i ddylanwadu ar ddatblygiad dysgu ac addysgu drwy fod yn aelodau o bob rhwydwaith proffesiynol. Er enghraifft, maent yn ymchwilio a chynghori athrawon ar ddulliau effeithiol ac apelgar o gyflwyno technoleg ddigidol, a chyfrannu at adnoddau'r blwch dysgu ac addysgu. Mae hyn yn arfer sy’n arwain y sector.

Mae llawer o’r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau yn y gymuned ac yn cyfrannu’n dda iawn at waith elusennol.

Mae bron pob disgybl yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol a llawer yn hyderus bod yr ysgol yn delio’n briodol â’r nifer fach o achosion o fwlio sydd yn codi. Mae’r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o fywyd a bwyta’n iach, â’r mwyafrif ohonynt yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau i hybu ffitrwydd.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn dda iawn. Maent wedi gwella’n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2012, roedd lefelau presenoldeb ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Mae ymddygiad disgyblion yn arbennig o dda mewn gwersi, ac o gwmpas yr ysgol, agwedd bositif a chydwybodol tuag at dysgu. Dangosant barch at oedolion ac ymwelwyr a chonsyrn tuag at eu cyd-ddisgyblion.

Mae rhan fwyaf ohonynt yn meddu ar y medrau i’w paratoi ar gyfer bywyd tu hwnt i’r ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer medrau yn eithriadol. Mae hyn yn galluogi disgyblion o bob gallu i ddatblygu fel dysgwyr hyderus ac annibynnol. Mae bron pob athro yn manteisio ar bob cyfle i ymestyn medrau’r disgyblion, yn enwedig eu medrau meddwl a’u medrau llythrennedd. Ceir pontio cwricwlaidd effeithiol iawn drwy’r cwrs CAMU a ddarperir i Flwyddyn 7. Mae’r cwrs hwn yn ffocysu’n effeithiol ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd ac mae pob disgybl yn gwneud cynnydd da trwy’r profiadau. Yn ogystal â’r rhaglen hon, mae’r holl gynlluniau gwaith adrannol wedi’u diweddaru i sicrhau bod pwyslais amlwg ar ddatblygu a defnyddio medrau ar draws y cwricwlwm gyda dilyniant priodol, a heriol, yn ystod y cyfnodau allweddol. Mae’r gefnogaeth i wella medrau sylfaenol y disgyblion sy’n gweithio cryn dipyn islaw’r lefelau disgwyliedig yn effeithiol iawn. Mae’r holl strategaethau hyn yn cyfrannu’n sylweddol at welliant a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae’r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys yng nghyfnod allweddol 3, cyfnod allweddol 4, a’r chweched dosbarth, sy’n bodloni’r gofynion statudol yn llawn, yn ogystal ag anghenion a dyheadau disgyblion. Mae’r cwricwlwm yn darparu llwybrau dysgu unigol sydd yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o’u cyfraniad i’r gymuned leol a’r gymuned ehangach. Ceir cydweithio arloesol a llwyddiannus gydag ysgol uwchradd arall, a phartneriaid eraill yn y sector ôl-16, gyda’r ddwy ysgol yn rhannu darpariaeth eang. Cynigir cwricwlwm effeithiol iawn yn y chweched dosbarth sydd wedi ei seilio ar Gymhwyster Bagloriaeth Cymru ac, o ganlyniad, mae cyfraddau dychwelyd i’r chweched dosbarth ar draws y bartneriaeth yn uchel iawn.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn hynod effeithiol. Yn ogystal, ceir rhaglen gynhwysfawr ac eang o weithgareddau allgyrsiol sy’n cynnig cyfleoedd helaeth i’r disgyblion ddefnyddio’r Gymraeg mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i’w gwersi. Mae’r Cwricwlwm Cymreig yn cael sylw addas ar draws y cwicwlwm.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Mae’r ysgol wedi datblygu cysylltiadau gwerthfawr gydag ysgolion ym Mangladesh a Kenya ac, o ganlyniad, mae’r disgyblion yn datblygu’n dda iawn eu medrau cyfathrebu a’u gwybodaeth am gymunedau ehangach.

**Addysgu: Rhagorol**

Mae ansawdd a chysondeb yr addysgu yn nodwedd ardderchog, gyda dros hanner yr addysgu yn rhagorol. Yn y gwersi rhagorol, mae athrawon yn cynllunio'n drwyadl ac yn fanwl i sicrhau tasgau addas er mwyn ymestyn dealltwriaeth a medrau disgyblion ar draws yr ystod gallu. Maent yn gwneud defnydd da iawn o weithgareddau symbylus ar ddechrau'r wers a chynllunio sesiynau cloi effeithiol i adolygu'r hyn a ddysgwyd. Rhennir nod ac amcanion a meini prawf llwyddiant yn gyson a chlir. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel o bawb, gwybodaeth bynciol arbennig o dda a pherthynas weithio gref gyda disgyblion. Maent yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu a gweithgareddau diddorol i ennyn diddordeb yr holl ddisgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys defnydd o gwestiynau treiddgar da iawn i herio, profi ac ymestyn dealltwriaeth y disgyblion. Mae cyflymder pwrpasol yn y gwersi hyn gydag awyrgylch effeithiol a gweithgar iawn. O ganlyniad, mae disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd eithriadol i wella eu dealltwriaeth, gwybodaeth a'u medrau.

Yn y gwersi eraill, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd perthnasol ym mhob pwnc i'r disgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a medrau meddwl. Hefyd, mae amryw o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda iawn, ac mae'r berthynas, a'r addysgu yn sicrhau bod pob disgybl yn gwneud y cynnydd perthnasol.

Mae athrawon yn marcio llyfrau yn rheolaidd ac yn gyson. Maent yn darparu adborth manwl ac adeiladol gan osod targedau clir gyda chyngor penodol ar gyfer gwella dealltwriaeth bynciol a medrau llythrennedd y disgyblion. Mewn llawer o wersi mae disgyblion yn asesu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn effeithiol gan ddefnyddio meini prawf priodol. Mae asesu yn un o gryfderau'r ysgol ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at gynnydd y disgyblion.

Mae'r adroddiadau i rieni yn cydymffurfio â gofynion statudol. Mae adroddiadau bob tymor yn rhoi crynodeb defnyddiol gyda graddau am ymddygiad, cynnydd, cyflwyno gwaith cartref ac ymdrech. Mae'r ysgol yn dadansoddi'r graddau'n drylwyr i olrhain cynnydd disgyblion; ar lefel unigol, grŵp, pwnc a blwyddyn. Defnyddir data yn hynod o effeithiol i adnabod a mynd i'r afael â disgyblion sy'n tangyflawni. Mae pwyslais cryf hefyd ar gydnabod a dathlu cynnydd eithriadol. Mae adroddiadau diwedd blwyddyn yn cynnwys sylwadau pwnc manwl a chyngor penodol ar sut i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol gyfundrefn fugeiliol ardderchog sy'n hyrwyddo iechyd a lles ei disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Mae gweithrediad ac effaith y strategaethau adferol i hyrwyddo ymddygiad positif ar draws yr ysgol yn arfer sy'n arwain y sector. Maent wedi lleihau nifer y gwaharddiadau yn sylweddol ac wedi arwain at welliant mewn safonau, ymagweddau, ymddygiad, hyder a lles y disgyblion. Mae'r strategaethau cadarn i wella presenoldeb wedi sicrhau gwelliant yng nghyfraddau presenoldeb disgyblion.

Darperir rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol bwrpasol. Ceir ystod eang o weithgareddau sy'n ychwanegu'n effeithiol at brofiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r cyfnodau 'munud i feddwl' a'r 'sgyrsiau sydyn' gyda thiwtoriaid yn ychwanegu'n effeithiol iawn at ddatblygiad ieithyddol, cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion.

Caiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eu cynnwys ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion y disgyblion yn gyflym ac yn rhoi ymyrraeth a chymorth priodol a gwerthfawr i wella medrau llythrennedd, iaith a rhif. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn. Mae pob disgybl yn yr ysgol yn gadael gyda chymhwyster cydnabyddedig ac mae llwyddiant 100% yn nhrothwy lefel 1 yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

Gwneir defnydd creadigol o'r ardal cynhwysiant, yr ardal mynediad i ddysgu, a'r ardal iaith a lleferydd i sicrhau bod grwpiau penodol o ddisgyblion yn gallu manteisio ar ystod eang o gymorth a chynhaliaeth arbenigol.

Mae disgyblion yn derbyn cyngor a chyfarwyddyd da iawn pan maent yn dewis cyrsiau cyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Bryn Tawe yn gymuned hapus, ofalgar ac uchelgeisiol lle mae pob aelod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r ethos cynhwysol yn seiliedig ar weithrediad polisïau a gweithdrefnau sy'n parchu hawliau pob unigolyn. Mae goddefgarwch yn nodwedd amlwg o fywyd yr ysgol gyda'r disgyblion yn barod iawn i helpu ei gilydd tra'n datblygu eu hunain fel unigolion ar yr un pryd. Mae gan yr ysgol safonau uchel ac mae pawb yn anelu at ragoriaeth ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gyfleusterau dysgu da iawn i fodloni anghenion y cwricwlwm eang. Ceir arddangosfeydd amrywiol a lliwgar o waith a llwyddiannau disgyblion ar draws dosbarthiadau a choridorau'r ysgol, â'r cyfan yn cyfleu awyrgylch ysgogol. Defnyddir adnoddau'r ganolfan hamdden gyfagos yn bwrpasol i ychwanegu at, a chyfoethogi, profiadau addysg gorfforol y disgyblion. Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal yn dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol clir a ddarperir gan y pennaeth yn rhagorol gyda ffocws clir ar gynnal a chodi safonau. Caiff y pennaeth ei gefnogi gan uwch-dîm rheoli brwd. Mae effaith gwaith yr uwch-dîm yn treiddio drwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Maent yn rheolwyr llinell arbennig sy'n mynnu disgwyliadau uchel a chyson. Yn y cyfarfodydd cyswllt mae ffocws penodol ar gyrhaeddiad disgyblion. Mae rheolwyr llinell a rheolwyr canol yn cyd-fonitro llyfrau a chyd-arsylwi gwersi

adrannol.  Mae hyn yn sicrhau bod dealltwriaeth gadarn gan bawb o safonau ac yn cynnig lefel briodol o her a chefnogaeth.  Mae'r cydweithio ardderchog hwn wedi arwain at ddeilliannau rhagorol.

Mae'r prosesau rheoli cadarn yn cael eu gweithredu'n gyson gan yr holl staff.  Mae pob aelod yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran mynnu'r safonau uchaf o gyrhaeddiad a lles y disgyblion.  Mae rhaglen o gyfarfodydd cyson yr uwch-dîm rheoli yn sicrhau bod blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn cael eu monitro'n gyson a thrylwyr.  Mae'r cynllun hwn yn cael ei fireinio yn gyson er mwyn ymateb i sefyllfaoedd sy'n codi a gwarantu bod targedau'r ysgol yn cael eu bodloni.

Mae rheolwyr canol yr ysgol hon yn ymarferwyr sydd yn awyddus i arbrofi, dysgu gan gydweithwyr, a myfyrio ar eu harferion eu hunain er mwyn cyfoethogi profiadau'r disgyblion.  Maent yn dîm gwerthfawr sy'n gyson yn eu hymdrechion i sicrhau safonau o'r radd flaenaf.  Ar sail hunanarfarniadau manwl sy'n canolbwyntio ar berfformiad gwahanol garfannau o ddisgyblion, maent yn gweithredu strategaethau effeithiol er mwyn codi safonau ymhellach.  Mae rheolwyr canol yr ysgol yn gweithio'n hynod lwyddiannus er mwyn cefnogi, monitro ansawdd  gwersi, craffu ar waith, a sicrhau mewnbwn gwerthfawr aelodau eu hadran i gynlluniau datblygu.

Mae'r corff llywodraethol yn brofiadol ac yn wybodus iawn am berfformiad yr ysgol.  Maent yn dadansoddi data yn drwyadl ac yn gallu cymharu perfformiad yr ysgol gydag ysgolion tebyg.  Mae gan bob adran lywodraethwr cyswllt sy'n cyfarfod er mwyn derbyn gwybodaeth uniongyrchol am safonau o fewn adrannau'r ysgol.  Mae'r pennaeth yn paratoi adroddiadau manwl i'r corff llywodraethol am gynnydd yn erbyn targedau'r cynllun datblygu ysgol.  Hefyd, ceir cyflwyniadau gan reolwyr canol am safonau yn eu hadrannau hwy.  Maent yn gwireddu eu rôl o gymell a herio fel ffrind beirniadol i'r ysgol yn effeithiol.

Mae polisi a gweithdrefnau rheoli perfformiad effeithiol yn yr ysgol ac mae gan bob aelod o staff darged effeithiol sy'n canolbwyntio ar agwedd ar ddatblygu llythrennedd.

Mae'r ysgol wedi ymgorffori blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn gadarn yn amcanion gwella cynllun datblygu'r ysgol, gan gynnwys, datblygu medrau llythrennedd a rhifedd, ehangu opsiynau i ddysgwyr 14-19 a sicrhau dilyniant effeithiol rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

**Gwella ansawdd:  Rhagorol**

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn drylwyr ac wedi eu sefydlu'n gadarn.  Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth arbennig o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu mireinio pellach. Mae pob aelod o staff yn derbyn cyfleoedd perthnasol i gyfrannu'n effeithiol tuag at y broses.  Rhoddir pwyslais arbennig ar safonau drwy arsylwi gwersi a chraffu ar waith y disgyblion.  Mae arsylwadau gwersi yn ffocysu'n glir ar safonau, medrau a chyflawniad disgyblion ac mae'r arfer orau yn cael ei rhannu ar draws yr adrannau yn rheolaidd.  Mae'r prosesau hyn wedi arwain at gysondeb yn ansawdd yr addysgu ac asesu a chynnydd sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf mewn safonau a medrau disgyblion.

Mae holl reolwyr yr ysgol yn dadansoddi data yn effeithiol iawn er mwyn monitro'r holl agweddau ar berfformiad yr ysgol. Mae pob aelod o staff yn ymwybodol iawn o'r meysydd sy'n cael eu datblygu ac yn hyderus wrth ddefnyddio data i arfarnu effeithiolrwydd eu darpariaeth. Hefyd, mae defnydd manwl o'r data yn sicrhau bod yr adrannau yn gosod targedau perthnasol, a heriol, i'r disgyblion. Mae llais cryf gan y disgyblion, rhieni a gofalwyr, yr holl staff, a'r llywodraethwyr, i'r adroddiad hunanarfarnu.

Ceir cyswllt cryf rhwng gweithgareddau hunanarfarnu a materion gweithredu'r cynlluniau datblygu ar bob lefel ar draws yr ysgol. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn dynodi blaenoriaethau a thargedau eglur a heriol. Nodir strategaethau clir, adnoddau pwrpasol, terfynau amser a thargedau mesuradwy. Mae llawer o gynlluniau datblygu adrannau yn fanwl iawn ac yn cynnwys blaenoriaethau priodol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol iawn i rannu a datblygu arfer orau'r addysgu. Mae'r ffocws cryf ar ddatblygu a mireinio dysgu ac addysgu wrth wraidd gweithgareddau datblygiad proffesiynol yr ysgol. Mae pob athro yn aelod o weithgor proffesiynol ac yn arsylwi gwersi yn eu maes penodol a phynciau eraill. Rhoddir cyfleoedd cyson i staff fynychu cyrsiau hyfforddiant mewn swydd ac mae'r trefniadau cynhwysfawr hyn yn sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus o safon uchel i bawb. Mae strwythurau clir yn bodoli i rannu'r arfer orau y tu mewn i'r ysgol drwy weithgorau, gweithgorau proffesiynol, a diwrnodau hyfforddiant lle caiff staff yr ysgol gyfle i arddangos y dulliau mwyaf llwyddiannus o godi safonau. Mae cydweithio buddiol hefyd rhwng staff yr ysgol hon ac ysgolion eraill.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn tuag at fodloni pob un o argymhellion yr arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau cadarn a llwyddiannus iawn sydd yn cynnwys cysylltiadau eang ag asiantaethau allanol arbenigol i gefnogi anghenion a lles disgyblion. Bu'r ysgol yn flaengar yn ffurfio cyswllt gyda swyddog o'r awdurdod i sefydlu cynllun i ddatblygu strategaethau adferol i hyrwyddo ymddygiad positif sydd wedi eu gwreiddio'n gadarn ym mywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn chwarae rhan ganolog mewn partneriaeth ag ysgolion eraill, a'r coleg lleol, i ehangu'r cwricwlwm 14-19. Mae cyswllt rhagorol wedi ei sefydlu ers amser rhwng yr ysgol ag ysgol uwchradd arall i ehangu opsiynau dysgu i'r disgyblion. Mae'r broses o gyd-gynllunio a rhannu arferion gorau wedi ei hymgorffori yn niwylliant yr ysgol. Mae cyd-gynllunio gofalus a chyfathrebu cyson ac agored wedi gwneud y bartneriaeth hon yn un hynod effeithiol. Mae'r bartneriaeth yn cyfrannu yn effeithiol iawn tuag at gyrhaeddiad dysgwyr ôl 16 ac yn annog canran uchel o ddisgyblion i ddychwelyd i'r chweched dosbarth. Mae deilliannau cadarn ôl-16 yn dyst i effeithiolrwydd y bartneriaeth.

Mae partneriaeth hynod effeithiol gyda rhieni'r ysgol lle ceir cyfathrebu cyson ac effeithiol. Mae'r ysgol hefyd yn rhan o gynllun buddiol iawn i hyrwyddo dysgu teuluol er mwyn cynnal a chefnogi holl ddisgyblion a rhieni yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos iawn gyda'r ysgolion cynradd partner sy'n ei bwydo. Cynhelir diwrnod hyfforddiant ar y cyd lle rhoddir ffocws clir ar ddysgu ac addysgu. Ar sail y cydweithio hwn, mae cynllun cytûn o gyflwyno'r 'wyth ymddygiad darllen' a sefydlwyd y cwrs 'CAMU' i ddisgyblion Blwyddyn 7 i gryfhau medrau llythrennedd ar sail llwyddiant y cwrs sylfaen.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol dîm o athrawon brwdfrydig dros ben i addysgu'r cwricwlwm yn hynod effeithiol. Mae'r staff ategol yn rhan arbennig o'r tîm sy'n gwneud cyfraniad eithriadol at waith yr ysgol.

Ceir rheolaeth gadarn o'r gyllideb ac mae pwyllgor cyllid y llywodraethwyr yn cynnal trosolwg rheolaidd a thrwyadl o benderfyniadau ariannol.

Mae'r uwch-dim rheoli yn dynodi adnoddau yn unol â'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Caiff effaith yr adnoddau ei hadolygu'n gyson gan y pennaeth a'r bwrsar. Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol.

Mae safonau'r ysgol ac ansawdd yr addysgu yn golygu bod yr ysgol yn cynnig gwerth rhagorol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yr ysgol, dros pum mlynedd, yn dangos cynydd arwyddocaol ac mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r dangosyddion pynciau craidd yn uwch na'r disgwyliad. Fodd bynnag, dros y tair blynedd diwethaf, mae'r dangosydd pynciau craidd yn dangos anghysondeb. Yn 2010 a 2012 roedd perfformiad yr ysgol yn llawer uwch na chyfartaledd y teulu, a chyfartaledd Cymru ac ymysg y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Roedd perfformiad 2011 yn is na chyfartaledd y teulu ac yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y Gymraeg, hefyd, yn dangos tuedd newidiol. Yn 2010, 'roedd yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ac ysgolion tebyg, o ran prydau ysgol am ddim, yn 2011 yn y 50% isaf ac, yn 2012, yn y 50% uchaf. Roedd perfformiad 2012 yn y Gymraeg ar lefel 6 neu'n uwch yn well na chyfartaledd y teulu. Roedd perfformiad mewn Saesneg a mathemateg yn 2012 ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg, a hefyd yn uwch na chyfartaledd y teulu. Roedd perfformiad mewn gwyddoniaeth yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2012, roedd perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn Saesneg, a mathemateg yn well na chyfartaledd y teulu ond, mewn gwyddoniaeth, mae'n is na chyfartaledd y teulu. Roedd cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 7 neu uwch yn is na'r teulu yn y Gymraeg,  mathemateg, ond yn uwch na'r teulu mewn Saesneg a gwyddoniaeth.

Yn y dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad y bechgyn a'r merched yn agos iawn at ei gilydd, gyda'r bechgyn yn perfformio yn uwch na'r disgwyliadau o gymharu â chyfartaledd y teulu a Chymru.

Yng nghyfnod allweddol 4, ers 2009, mae canlyniadau'r trothwy lefel 2 wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu, a heblaw am 2011, yn y 25% uchaf o gymharu ac ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Hefyd, yn ystod yr un cyfnod, mae canlyniadau'r trothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu, a heblaw am 2011, yn y 25% uchaf o gymharu ac ysgolion tebyg. Mae canlyniadau'r trothwy lefel 1 wedi bod yn y 25% uchaf ers 2008, o gymharu ag ysgolion tebyg, heblaw am 2010, lle bu gostyngiad i'r 50% uchaf. Ers 2009 mae canlyniadau'r dangosydd pynciau craidd wedi bod yn y 25% uchaf, heblaw am 2011, lle bu gostyngiad i'r 50% uchaf o gymharu ac ysgolion tebyg. Mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio wedi bod yn y 25% uchaf dros y dair blynedd diwethaf.

Ers 2010 mae canlyniadau mewn Cymraeg, a Saesneg, wedi bod yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae canlyniadau mathemateg wedi bod yn y 25% uchaf yn 2010 a 2012, ond bu gostyngiad i'r 50% isaf yn 2011. Dros gyfnod o dair blynedd, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol ymhlith y 50% uchaf yn 2010 a 2012 ac yn y 50% isaf o gymharu ac ysgolion tebyg yn 2011.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3 dros gyfnod o dair blynedd, wedi bod yn agos iawn i gyfartaledd y teulu a Chymru. Yn 2012, roedd

y ganran yn uwch na'r teulu a Chymru.  Hefyd, yn 2012, roedd y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach yn llawer uwch na chyfartaledd y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiaduron dysgwyr**

Ymatebodd 185 o ddisgyblion, wedi eu dewis ar hap ar draws yr ysgol, i'r holiadur. Mae'r sampl hon yn cynrychioli chwarter o holl ddisgyblion yr ysgol.  Mae'r ymatebion ar gyfer bron pob un o'r cwestiynau yn debyg neu'n well nag ymatebion disgyblion o ysgolion uwchradd eraill.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.  Mae llawer yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a'r rhan fwyaf yn nodi bod ganddynt rywun i siarad ag ef os ydynt yn poeni.  Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod eraill yn ymddwyn yn dda.  Teimla'r rhan fwyaf o ddisgyblion bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a bod digon o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo bod digon o offer yn yr ysgol iddynt wneud eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda a bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.  Hefyd, mae llawer yn teimlo bod y gwaith cartref sy'n cael ei osod yn adeiladu'n dda ar yr hyn maent yn ei ddysgu. Mae llawer o'r disgyblion yn teimlo bod y staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt.  Mae llawer o'r disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu barn ac yn gwneud newidiadau maent yn eu hawgrymu.  Mae'r gyfran hon yn uwch na'r gyfran sy'n dweud hyn mewn ysgolion uwchradd eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn nodi bod yr ysgol yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb.  Hefyd, mae llawer yn teimlo bod yr ysgol yn eu helpu i fod yn barod ar gyfer yr ysgol nesaf, coleg neu fywyd gwaith.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniodd Estyn 155 o holiaduron gan y rhieni ac mae pob un ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol.

Dywed rhan fwyaf o'r rhieni fod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn gwneud cynnydd da ac yn teimlo'n ddiogel ynddi.  Mae'r rhan fwyaf yn credu bod ymddygiad y disgyblion yn dda a bod eu plant yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae rhan fwyaf yn nodi bod disgyblion yn cael eu parchu a'u trin yn deg ac maent yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.  Mae bron bob un o'r rhieni yn teimlo bod yr addysgu'n dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni yn teimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn a bod yr ysgol yn eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf, coleg neu waith.  Mae rhan fwyaf o'r rhieni yn teimlo bod yna amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.  Mae'r bron pob un o'r rhieni o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ray Owen | Arolygydd Cofnodol |
| Emyr Wyn Roberts | Arolygydd Tîm |
| Meinir Rees | Arolygydd Tîm |
| Rhian Wyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Matthew Brown | Arolygydd Cymheiriaid |
| Simon Davies | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy’n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a’u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu’n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi’i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o’r holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â’u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu’u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |